# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 6

ATODOL

*Darpariaeth benodol ar gyfer lleoliadau pellach etc*

### 70 Pŵer i gymhwyso'r Ddeddf i blant sy'n cael eu cadw'n gaeth a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth

(1) Caiff rheoliadau gymhwyso darpariaethau yn y Ddeddf hon, gydag addasiadau neu hebddynt—

(a) i blant sy'n cael eu cadw'n gaeth yng Nghymru o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau, a

(b) i bobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth yng Nghymru o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau.

(2) Yn yr adran hon, ystyr plentyn sy'n cael ei gadw'n gaeth neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth yw plentyn neu berson ifanc sy'n cael ei gadw'n gaeth yn unol—

(a) â gorchymyn a wneir gan lys, neu

(b) â gorchymyn adalw a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.